**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau'r Cynulliad

16 Ionawr 2018

Annwyl Aelod Cynulliad,

Fel Gweinidog Tai ac Adfywio, rwyf i wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gydlynu'r camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau diogelwch y rheini sy'n byw mewn tyrrau yn dilyn tân Twr Grenfell. Roeddwn yn teimlo ei bod yn amserol rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa yng Nghymru fel yr oedd pethau ddiwedd y flwyddyn.

**Tai Cymdeithasol a'r Ystâd Gyhoeddus Ehangach**

Pan roddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar y pryd, Carl Sargeant, yr wybodaeth ddiweddaraf ym mis Medi, adroddodd ein bod wedi canolbwyntio i ddechrau ar nodi pa rai o'n hadeiladau preswyl oedd â saith llawr neu fwy neu dros 18 metr o uchder, â chladin o Ddeunydd Cyfansawdd Alwminiwm o unrhyw fath. Ar ôl nodi'r holl adeiladau hyn a gweithio gyda'r perchnogion/landlordiaid i asesu pa gladin a ddefnyddiwyd arnynt, mae yna dri adeilad sydd â systemau cladin o Ddeunydd Cyfansawdd Alwminiwm sy'n cyfateb i'r hyn sy'n methu profion y Sefydliad Ymchwil Adeiladu. Nodwyd pedwar adeilad arall yn y profion sgrinio cychwynnol, ond yn nes ymlaen canfuwyd bod ganddynt systemau o Ddeunydd Cyfansawdd Alwminiwm/systemau inswleiddio a oedd yn cyfateb i'r hyn sy'n bodloni gofynion y Rheoliadau Adeiladu.

Mae fy swyddogion a'r Gwasanaeth Tân ac Achub perthnasol mewn cysylltiad agos â landlordiaid y tri adeilad, Cartrefi Dinas Casnewydd. Cymerwyd mesurau gofal ychwanegol yn unol â chyngor yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Rydym ar ddeall hefyd fod yna waith ar y gweill i osod systemau chwistrellu awtomatig. Mae hyd a lled y gwaith i addasu'r cladin i'w wneud yn gydnaws â'r Rheoliadau Adeiladu yn cael ei ystyried.

Rwy'n ymwybodol hefyd fod Dinas a Sir Abertawe wedi penderfynu, p'un a fydd y system gladin yn bodloni gofynion y Rheoliadau Adeiladu ai peidio, ei bod am osod systemau chwistrellu awtomatig yn ei hadeiladau preswyl uchel.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar sail meini prawf yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, byddai cyfleusterau gofal iechyd wedi gorfod cael eu profi lle roedd Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm yn bresennol os oedd yr adeilad yn ddau lawr neu'n uwch a phobl yn aros yno dros nos, neu'n 18 metr neu'n uwch. Nid oedd unrhyw un o adeiladau ystâd GIG Cymru yn bodloni'r meini prawf ac roedd angen eu profi. Cysylltwyd ag ysbytai preifat hefyd ar sail meini prawf yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ni nodwyd unrhyw broblemau.

**Y Sector Preifat**

Mae fy swyddogion wedi parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol a gwasanaethau tân ac achub er mwyn nodi ble mae ein hadeiladau preswyl uchel sector preifat a phwy sy'n berchen arnynt, gan gynnwys llety myfyrwyr. Nodwyd mwy na 100 o safleoedd ac mae fy swyddogion mewn cysylltiad â pherchnogion/asiantau rheoli pob un ohonynt er mwyn cael manylion eu systemau cladin a sicrhau bod unrhyw gynnyrch sydd â Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm yn cael ei sgrinio.

Ym mis Medi, adroddodd Carl Sargeant nad oedd systemau cladin Deunydd Cyfansawdd Alwminiwm wyth o'r adeiladau hyn yn bodloni gofynion y Rheoliadau Adeiladu. Ers hynny, nodwyd tri adeilad arall. Mae pob un o'r 11 adeilad yng Nghaerdydd. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion fynd ati i weithio gyda pherchnogion adeiladau'r sector preifat yn yr un ffordd ag a wnaethant gyda landlordiaid tai cymdeithasol - diogelwch pobl yw ein prif bryder. Mae'r swyddogion yn gweithio gyda pherchnogion yr adeiladau, yr awdurdod tai lleol a gwasanaethau tân ac achub er mwyn sicrhau bod mesurau gofal ychwanegol ar waith yn unol â chyngor yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Bydd gwaith y swyddogion yn parhau hyd nes y bydd y gwaith adfer sydd ei angen er mwyn gwneud yr adeiladau yn gydnaws â'r Rheoliadau Adeiladu wedi'i gwblhau.

**Canllawiau Pellach**

Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol nodyn gwybodaeth arall ar gyfer landlordiaid a pherchnogion adeiladau preswyl uchel sydd â chladin o Ddeunydd Cyfansawdd Alwminiwm:

https://www.gov.uk/government/publications/information-note-for-landlords-and-building-owners-of-tall-residential-buildings-with-acm-cladding

Cyhoeddwyd tri nodyn cyngor arall hefyd.

Nodyn Cyngor 13 - Cyngor i berchnogion adeiladau: Systemau Inswleiddio Waliau Allanol sydd wedi'u rendro neu sydd â haen allanol sy'n edrych fel briciau:

https://www.gov.uk/government/publications/advice-for-building-owners-external-wall-insulation-ewi-systems-with-a-render-or-brick-slip-finish

Nodyn Cyngor 14 - Cyngor i berchnogion adeiladau: systemau waliau allanol sydd heb Ddeunydd Cyfansawdd Alwminiwm:

https://www.gov.uk/government/publications/advice-for-building-owners-external-wall-systems-that-do-not-incorporate-acm a

Nodyn Cyngor 15 - Cyngor i berchnogion adeiladau ar systemau waliau allanol

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/668774/2017-12-18_Advice_note_15

**Adolygiad Annibynnol o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad interim y Fonesig Judith Hackitt [https://www.gov.uk/government/publications/independent-review-of-building-regulations-and-fire-safety-interim-report], sy'n cydnabod bod angen ailystyried y system gyfan ar lefel sylfaenol er mwyn sicrhau diogelwch pobl ac ailennyn ymddiriedaeth. Tra rydym yn aros am yr argymhellion terfynol, mae'n amlwg bod y materion sy'n ymwneud ag addasrwydd y system reoleiddio bresennol a diwylliant y diwydiant mor hanfodol na ellir eu hystyried yn unigol, heb gysylltiad â'i gilydd. Byddwn yn parhau i gydweithio â Llywodraeth y DU, ar draws Llywodraeth Cymru a chyda'n rhanddeiliaid i sicrhau bod y system yng Nghymru yn darparu ar gyfer lles a diogelwch pobl.

Gan adeiladu ar drafodaeth gynharach rhwng y Fonesig Judith a Gweinidogion Cymru, byddwn yn parhau i sicrhau bod safbwyntiau yng Nghymru yn cael eu bwydo i ail ran ei gwaith. Ar 15 Ionawr caiff dau ddigwyddiad gyda'r Fonesig Judith a'i thîm adolygu eu cynnal yng Nghaerdydd. Bydd y rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff rheoleiddio, datblygwyr, a chynrychiolwyr tai a phreswylwyr. Bydd y digwyddiadau yn gyfle amserol i roi adborth i'r Fonesig Judith ar ei hargymhellion interim.

**Adeiladau uchel eraill**

Roedd adroddiad interim y Fonesig Judith yn cydnabod cymhlethdod prosiectau adeiladau uchel. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub i gael darlun cliriach, yn enwedig ynghylch gwestai uchel. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi mynd ati i geisio nodi'r gwestai hyn ac mae wrthi'n cwblhau arolygiadau tân. Rydym yn ymwybodol o un gwesty sydd yn y broses o newid ei gladin ar hyn o bryd.

**Y Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Tân**

Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Grŵp yn parhau i ystyried materion sy'n ymwneud â diogelwch tân a bod ganddo gysylltiadau agos â Phanel Arbenigwyr y DU. Rwy'n disgwyl argymhellion pellach ym mis Ionawr. Unwaith y daw'r rhain i law, byddaf yn ysgrifennu eto at Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru i ddatganiad cychwynnol y Grŵp a'i argymhellion terfynol.

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau fel y bo'n briodol.

Yn gywir

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AC**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio